

Y meddwl ar ei orau

“Oherwydd y mae tri sy'n tystiolaethu, yr Ysbryd, y dŵr, a'r gwaed.” (adn. 7–8)

Beth am ddarllen 1 Ioan 5:6–12 ac yna myfyrio

Un o'r pethau yr wyf wedi ei ddarganfod fel gweinidog a chynghorwr yw fod anawsterau moesol yn aml yn cael eu cuddio y tu ôl i anawsterau meddyliol. Gallwn ddatblygu problem yn ein meddwl er mwyn ceisio gwyro'r sylw oddi wrth yr hyn sydd yn mynd ymlaen yn ein henaid.

Un tro, daeth gŵr ataf â chwestiwn ynglŷn â'r Drindod. Dywedodd wrthyf ei fod yn cael amheuan meddyliol mewn perthynas â'r athrawiaeth fendigedig yma. Dyma ddweud wrtho: “Mae dysgeidiaeth mewn perthynas â'r Drindod yn anodd i'w deall ac, yn wir, allwn ni ddim deall oni bai fod Duw yn rhoi dirnadaeth ysbrydol inni. Mae'n debyg fod y gwirionedd yn rhywbeth aneglur iawn yn y Gair, os na fydd yr Ysbryd yn datguddio y gwirionedd inni.” Defnyddiais eglureb a ddysgais wrth ddarllen gweithiau Awstin Sant. Ysgrifennodd unwaith: “Dos i'r Iorddonen ac fe weli y Drindod.” Yno, adeg bedydd Iesu, roedd tri pherson y Duwdod ar waith. Clywir y Tad yn siarad yn eglur o'r nefoedd. Gwelir y Mab yn cael ei fedyddio yn yr afon, ac fe welodd Ioan yr Ysbryd yn disgyn ar y Mab. Roedd yn amlwg i mi fod llawer o'r hyn yr oeddwn yn ei ddweud yn cael ei gollu ar y gŵr yma. Ond trwy drugaredd a dybiaf ddaeth trwy ddatguddiad gan yr Ysbryd Glân, gwelais i mewn i'w enaid. Rhoddais fy llaw ar ei law a dweud: “Wyt ti'n cael trafferth â phroblem foesol?” Syrthiodd ei wyneb. Cyffesodd fod yna anhawster, ac fe adawyd athrawiaeth y Drindod er mwyn delio â'r broblem yn ei enaid. Wedi gweddi a chyngor, mae'n dda gennyf ddweud fod y broblem wedi ei datrys.

Beth, felly, am yr anhawster meddyliol gyda golwg ar y Drindod? Ychydig yn ddiweddarach, fe ddywedodd wrthyf: “Nid wyf eto yn deall yr athrawiaeth ond, am ryw reswm, nid wyf yn ei gwrthod ychwaith.” Mae'r meddwl yn gweithio ar ei orau pan fo'r enaid mewn perthynas iawn hefo Duw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Salm 51:1–19; Ioan 4:7–29

Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Sut all trafodaeth grefyddol gau Duw allan?
2. Sut fu i Iesu ddirwyn y drafodaeth i ben?

Gweddi

Fy Nuw a fy Nhad, rwy'n gofyn i ti fy achub a'm gwared rhag i mi ddatblygu anhawster yn fy meddwl er mwyn cuddio anhawster yn fy enaid. Rwy'ti'n chwennych gwirionedd yn y dyn mewdol. Rwy'n gofyn am gael bod y math o berson rwy'n dymuno bod. Er mwyn Iesu. Amen.